

Thema 10 Nodiadau athrawon: Beth yw trychineb naturiol?

Cyfnod Allweddol 2

Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol trwy ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am drychinebau naturiol. Maent yn ystyried sut i wneud map cymunedol o'u hardal ac edrych ar ddata gwefan am eu hafon leol. Mae dysgwyr yn ystyried sut y gallwn ni ddiogelu rhag llifogydd môr ac archwilio amddiffynfeydd dŵr yn ymarferol. Yn olaf, maent yn archwilio lefelau môr yn codi ar fap rhyngweithiol ac yn datblygu cynnig ar gyfer diogelu dinas rhag lefelau môr sy'n codi.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FflIRh:

CA2: Gwyddoniaeth:

Y Ddaear gynaliadwy: Sgiliau

CA2: Daeryddiaeth: Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau; Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau; Ymchwilio; Cyfathrebu

FflIRh:

Defnyddio sgiliau mesur:

Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd

Defnyddio data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

FfCD:

Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol

<p>Sgrin</p> <p>1</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae cyfres o ddeg delwedd sy'n dangos y trychinebau naturiol canlynol ar gael i'w gweld ar y sgrin hon, trwy glicio ar y rhifau 1 - 10.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Eirlithriad 2. Llifogydd 3. Daeargryn 4. Tornado 5. Corwynt 6. Llosgfynydd 7. Tirlithriad 8. Tan coedwig 9. Tsunami 10. Llyncdwll <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth yw pob trychineb naturiol a beth allai ei achosi. Gofynnir iddynt enwi trychinebau naturiol eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw ac i wneud gwaith ymchwil i ddod o hyd i wybodaeth am un o'r trychinebau naturiol hyn. Gwahoddir dysgwyr i wneud cyflwyniad 30 eiliad i'r dosbarth i rannu eu canfyddiadau.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am drychinebau naturiol.</p> <p>Adnoddau ychwanegol:</p> <p>http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>
<p>Sgrin</p> <p>2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>I ddechrau, mae dysgwyr yn ystyried sut y gallent weld yr arwyddion cyntaf o berygl mewn trychineb naturiol a sicrhau bod pawb yn gwybod beth i'w wneud i gadw eu hunain, eu pethau a'u ffrindiau a'u teulu'n ddiogel.</p> <p>Mae gweithgaredd o'r enw 'Ydych chi'n cofio?' yn gwahodd dysgwyr i siarad â pherthnasau hŷn a ffrindiau teulu am y trychinebau naturiol mwyaf y maen nhw'n eu cofio. Gallent wneud nodiadau ac adrodd yn ôl i'r dosbarth. Gallai grwpiau o ddysgwyr hefyd gynnal ymchwil pellach, casglu pwyntiau cyffredin a chynhyrchu rhestr o beryglon a'r hyn y gellid ei wneud amdanynt. Gofynnir iddynt ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ganddynt i greu Map</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried sut i wneud map cymunedol o'u hardal.</p> <p>Adnoddau ychwanegol:</p> <p>http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>

	<p>Cymunedol.</p> <p><i>Nid yw Map Cymunedol yr un fath â map printiedig swyddogol o'ch ardal. Mae'n ddarlun mawr y gallwch ei greu i ddangos pa risgiau sy'n bodoli yn eich cymuned, a pha adnoddau y gallwch eu defnyddio i amddiffyn eich hunain. Mae'n helpu pobl i adnabod perygl ac i weithredu cyn i drychineb ddigwydd.</i></p>	
<p>Sgrin</p> <p>3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Nod y sleid hon yw i ddysgwyr ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am eu hafonydd lleol.</p> <p>Gofynnir iddynt edrych ar wefan sy'n darparu gwybodaeth am afonydd yng Nghymru. Trwy fewnbynnu eu cod post, bydd dysgwyr yn cael mynediad i wybodaeth fyw a hanesyddol, gan gynnwys graffiau, am yr orsaf fonitro afon agosaf i ble maent yn byw. Darperir cwestiynau i gefnogi a chyfarwyddo dysgwyr trwy'r broses o ddadansoddi'r data a gyflwynir.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am lefelau dŵr eu hafon leol. Maent yn gwneud gwaith ymchwil ac yn dod o hyd i wybodaeth, gan ddefnyddio'r wefan gychwynnol fel man cychwyn. Gofynnir i ddysgwyr greu cyflwyniad 'lefel Dŵr' sy'n para un munud i hysbysu eraill am eu canfyddiadau. Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflwyniad da a'r hyn y gallent ei gynnwys yn eu cyflwyniad un munud.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn maen nhw'n ei wybod am eu hafon leol ac yn dadansoddi data am yr afon hon.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol:</p> <p>https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/check-river-levels/?lang=cy</p>
<p>Sgrin</p> <p>4</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae sleid hon a'r sleid nesaf yn anelu at annog dysgwyr i ystyried a allwn ni amddiffyn ein hunain rhag llifogydd môr. I ddechrau, mae dysgwyr yn defnyddio gwefan y BBC sy'n darparu mynediad i ddata a gwybodaeth am amseroedd llanw mewn gwahanol leoliadau o amgylch arfordir Cymru a'r DU. Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried y data a rhannu eu syniadau.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried sut y gallwn ni ddiogelu rhag llifogydd môr ac archwilio amddiffynfeydd dŵr yn ymarferol.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol:</p>

	<p>Mae gweithgaredd yn gofyn i ddysgwyr gynnal ymchwil i ddod o hyd i ddata a gwybodaeth am y llanw a lefelau llanw ac i wneud cyflwyniad 30 eiliad i'w dosbarth.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am amddiffynfeydd rhag llifogydd. Maent yn darganfod mwy o wybodaeth ac yna yn cynnal ymchwiliad i ddarganfod pa ddefnyddiau sydd orau i'w defnyddio i ddal dŵr yn ôl. Mae cwestiynau cymorth yn annog dysgwyr i ystyried y newidynnau sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad a sut i arddangos eu canfyddiadau.</p>	<p>http://www.bbc.co.uk/weather/cy/coast_and_sea/tide_tables/11/472#tide-details</p>
<p>Sgrin</p> <p>5</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>I ddechrau, gwahoddir dysgwyr i glicio ar ddolen sy'n darparu mynediad i fap rhyngweithiol sy'n eu galluogi i archwilio sut y rhagwelir y bydd newid yn lefelau'r môr yn effeithio ar wahanol ardaloedd yng Nghymru yn y dyfodol.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i rannu a thrafod eu syniadau am chwe datganiad sy'n ymddangos ar y sgrin. Maent yn archwilio a ydynt yn rhagfynegiadau, pa dystiolaeth y maent yn ei chyflwyno ac os ydynt yn ffeithiau, credoau neu farn a pha rai allai fod yn rhagfarn.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gofyn i ddysgwyr edrych yn agosach ar Gaerdydd ar y map rhyngweithiol ac i ystyried yr hyn y gellid ei wneud i amddiffyn y ddinas rhag lefelau môr yn codi. Gan ddefnyddio eu syniadau, gwahoddir dysgwyr i ddatblygu cynnig ar gyfer diogelu'r ddinas rhag lefelau'r môr yn codi.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio lefelau môr yn codi ar fap rhyngweithiol ac yn datblygu cynnig i ddiogelu dinas rhag lefelau môr yn codi.</p>

Cyfnod Allweddol 3		
<p>Crynodeb o'r ymholiad: I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am drychinebau naturiol. Maent yn ystyried daeargrynfeydd, eu maint a dulliau o'u mesur, a'u mynychder yng Nghymru. Mae dysgwyr yn archwilio amllder a maint daeargrynfeydd y DU a byd-eang ac yn olaf, archwilio ac ystyried ystod o ddata ar ddaeargrynfeydd a'i ddefnyddio i dynnu casgliadau a gwneud rhagfynegiadau</p>		<p>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FflIRh: CA3: Gwyddoniaeth: Y Ddaear gynaliadwy: Sgiliau CA3: Daearyddiaeth: Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau; Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau; Ymchwilio; Cyfathrebu</p> <p>FflIRh: Defnyddio sgiliau mesur: Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd Defnyddio data: Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau</p> <p>FfCD: Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol</p>
Sgrin	Defnyddio'r sgrin:	Cyfle dysgu:
1	<p>Mae cyfres o ddeg delwedd sy'n dangos y trychinebau naturiol canlynol ar gael i'w gweld ar y sgrin hon, trwy glicio ar y rhifau 1 - 10.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Eirlithriad 2. Llifogydd 3. Daeargryn 4. Tornado 5. Corwynt 6. Llosgfynydd 7. Tirlithriad 8. Tân coedwig 9. Tsunami 10. Llyncdwll 	<p>Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am drychinebau naturiol.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>

	<p>Mae dysgwyr yn ystyried beth yw pob trychineb naturiol a beth allai ei hachosi. Gofynnir iddynt enwi trychinebau naturiol eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw ac i wneud gwaith ymchwil i ddod o hyd i wybodaeth am un o'r trychinebau naturiol hyn. Gwahoddir dysgwyr i wneud cyflwyniad 30 eiliad i'r dosbarth i rannu eu canfyddiadau.</p>	
<p>Sgrin</p> <p>2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae'r sgrin yn darparu map o Gymru fel ysgogiad. I ddechrau, mae dysgwyr yn rhannu a thrafod eu syniadau am yr hyn maen nhw'n ei feddwl yw daeargryn a phryd ddigwyddodd y ddaeargryn ddiweddaraf yng Nghymru. Fe'u hanogir i rannu a thrafod eu syniadau ac ystyried sut mae daeargrynfeydd yn cael eu mesur a beth yw graddfa logarithmig. Gofynnir i ddysgwyr gynnal ymchwil i ganfod mwy o wybodaeth ac i chwilio am glipiau fideo o ddaeargrynfeydd yng Nghymru.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i greu infograffig i ddangos yr hyn y maent wedi'i ddarganfod o'u hymchwil.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Maent yn ystyried daeargrynfeydd, eu maint a'u mynychder yng Nghymru.</p>
<p>Sgrin</p> <p>3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Ar y sgrin mae tabl o wybodaeth am amlder daeargrynfeydd o wahanol faint. Mae dysgwyr yn defnyddio hyn fel deunydd ysgogi i rannu a thrafod eu syniadau am faint o ddaeargrynfeydd sydd bob blwyddyn a pha gasgliadau y gellir eu tynnu o'r wybodaeth.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried pa stori sy'n cael ei chyfleu gan ddau graff a gyflwynir ar y sgrin. Maent yn cymharu'r rhain â'i gilydd ac yn archwilio cysondeb yr wybodaeth a ddarperir yn y dair ffynhonnell ar y sgrin hon.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gofyn i ddysgwyr archwilio beth yw'r stori yn y DU trwy chwilio am gofnodion daeargryn hanesyddol a phenderfynu sut y gallant gyflwyno unrhyw ddata a gwybodaeth berthnasol y maent yn ei chanfod.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio i amlder a maint daeargrynfeydd yn y DU ac yn fyd-eang.</p>

<p>Sgrin</p> <p>4</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Ar y sgrin hon, gofynnir i ddysgwyr ystyried sut y gallant ddadansoddi data am ddaeargrynfeydd. I ddechrau, gofynnir iddynt ddewis un o bedwar graff a ddarperir ar y sgrin ac i ystyried pa 'stori' y mae'n ei ddweud. Mae pob graff yn dangos data hanesyddol am amlder a maint daeargrynfeydd dros gyfnodau amser gwahanol ac yn darparu ysgogiad i drafodaeth.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i edrych ar bob un o'r pedwar graff yn eu tro. Gofynnir iddynt ystyried pa wybodaeth y mae pob un yn ei darparu, i chwilio am batrymau a thueddiadau a pha gasgliadau y gallent eu tynnu o'r graffiau. Mae dysgwyr hefyd yn cael eu hannog i gymharu'r graffiau ac i ailystyried eu casgliadau a darparu tystiolaeth ategol.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried a yw'r dystiolaeth a gyflwynir yn y graffiau yn caniatáu iddynt ragfynegi amlder daeargrynfeydd yn y dyfodol. Gofynnir iddynt ddewis graff, braslunio sut y bydd y graff yn edrych yn y dyfodol, yn eu barn nhw, a dweud pa mor hyderus ydynt o'r rhagfynegiad hwn ar raddfa o 1-100.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio ac yn ystyried data am ddaeargrynfeydd a'i ddefnyddio i wneud rhagfynegiadau.</p>
<p>Sgrin</p> <p>5</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae'r sgrin hon yn parhau â'r syniad o ymholi (neu ddadansoddi) data am ddaeargrynfeydd. I ddechrau, mae dysgwyr yn rhannu a thrafod eu syniadau am y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng dau graff sy'n dangos data hanesyddol am ddaeargrynfeydd arwyddocaol o feintiau gwahanol.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried sut y gallant gymharu data. Maent yn edrych eto ar y ddau graff (daeargrynfeydd sylweddol 5+ a daeargrynfeydd arwyddocaol 6-6.9) a gofynnir iddynt ystyried beth mae'r graffiau'n ei ddangos, i dynnu casgliadau, braslunio eu rhagfynegiadau ar gyfer y dyfodol a defnyddio'r</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio ac yn ystyried data am ddaeargrynfeydd a'i ddefnyddio i wneud rhagfynegiadau.</p>



	<p>wybodaeth i fraslunio graff newydd sy'n dangos daeargrynfeydd o faint 5.0-5.9. Gofynnir iddynt gyfeirio at y graffiau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer eu casgliadau a'u rhagfynegiadau.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gofyn i ddysgwyr sut y gallent ddefnyddio gwybodaeth bellach ac fe ddarperir dau graff arall iddynt, sy'n dangos data hanesyddol am amllder daeargrynfeydd maint 7+ ac 8+ ar y raddfa. Gofynnir i ddysgwyr ystyried beth mae'r data hwn yn ei ddangos ac a yw'n effeithio ar eu rhagfynegiadau o'r gweithgaredd cyntaf. Yn olaf, maent yn cymharu'r pedwar graff ac yn ystyried pa gasgliadau terfynol y gellid eu tynnu o'r graffiau.</p>	
--	---	--

